LLEWYRCHED FELLY EiCH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser Ionawr / Chwefror 2024 Cyfrol 95 Rhif 1

**Tad tragwyddoldeb, plygaf ger dy fron,**
**ceisiaf dy fendith ddechrau'r flwyddyn hon;**
**trwy blygion tywyll ei dyfodol hi,**
**Arweinydd anffaeledig, arwain fi.**

**Beth fydd fy rhan ar hyd ei misoedd maith?**
**Nis gwn, fy Nuw; ni fynnwn wybod chwaith.**
**Ai hyfryd ddydd, ai nos dymhestlog ddaw?**
**Bodlon, os caf ymaflyd yn dy law.**

**Ffydd, gobaith, cariad – doniau pennaf gras**
**addurno f'oes wrth deithio'r anial cras;**
**rho imi beunydd fyw'n d'oleuni di:**
**Ddihenydd sanctaidd, tyred, arwain fi.**

**Heneiddia'r greadigaeth, palla dyn,**
**diflanna oesoedd byd o un i un;**
**er cilio popeth, un o hyd wyt ti:**
**y digyfnewid Dduw, O arwain fi.**

**T. J. PRITCHARD, 1853-1918**
***(peth o hanes yr awdur ar dudalen 11)***

## Tymor yr Adfent yn Ebeneser



Fe gawsom dymor Adfent prysur iawn fel Eglwys yn dathlu geni gwyrthiol ein Gwaredwr Iesu. Y digwyddiad cyntaf oedd noson garolau hyfryd gan Angor Grangetown yn Y Pafiliwn, o dan arweiniad crefftus Hywel Davies. Croesawodd Cynan Llwyd ni i gyd ac fe gawsom gyfle i ganu emynau traddodiadol mewn awyrgylch arbennig.

Ar yr ail Sul o Ragfyr fe gafwyd dwy oedfa Nadoligaidd. Roedd yr oedfa foreol o dan arweiniad y menywod ac wedi ei chydlynu gan Alison Jones. Sail yr oedfa oedd deunyddiau Apêl Ffynhonnau Byw a baratowyd gan Undeb yr Annibynwyr. Ffynhonnau Byw yw apêl arbennig yr Undeb mewn cydweithrediad â Chymorth Cristnogol, sy'n ymateb i'r anghenion mawr sydd yng Ngholombia. Ar ddiwedd yr oedfa cafwyd coffi a chacen a chyfle i gyfrannu yn ariannol tuag at yr apêl. Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran. Yn y pnawn cafwyd oedfa o amgylch y byrddau yn neuadd capel y Methodistiaid. Roedd Catrin Roberts wedi paratoi sgript yn adrodd hanes y geni gwyrthiol ac fe gymerodd nifer o aelodau ran. Unwaith eto cafwyd paned a theisennau a chyfle i gyfrannu tuag at yr apêl.



Daeth criw da iawn i sesiwn Nadolig Llanllanast pob oed ar fore Sul 17/12. Braf oedd cael croesawu teuluoedd newydd atom. Gosodwyd byrddau crefft amrywiol, arweiniodd Arfon Jones drafodaeth, cafwyd drama ar batrwm Agor y Llyfr a chyfle i gymdeithasu a bwyta ar y diwedd. Diolch o galon i bawb fu'n helpu i bara-toi, yn enwedig Esyllt a Carys. Yna gyda'r nos am 6.00 fe gawsom oedfa ddwyieithog gyda'n cyfeillion o'r eglwys Fethodistaidd. Cyflwynodd y Parch. Dr. Stephen Wigley neges amserol ac fe gyfeiliwyd gan Helen Thomas.



**Noswyl a Bore Nadolig**

Ar noswyl Nadolig cafwyd oedfa yn y prynhawn yng Nghapel y Methodistiaid gyda nifer o aelodau yn cymryd rhan. Teitl yr oedfa oedd "Wele cawsom y Meseia" ac fe edrychwyd ar Iesu'r Brenin, Iesu'r Proffwyd ac Iesu'r Offeiriad. Yna am 9.30 ar fore dydd Nadolig fe gafwyd oedfa o dan arweiniad Alun i ddathlu geni ein Harglwydd Iesu Grist. Unwaith eto daeth torf ynghyd gyda nifer o blant yn dangos eu anrhegion. Diolch i bawb am eu gwaith dros dymor yr Adfent.

**Cyngerdd Nadolig**

Fe drefnodd Ebeneser, mewn cydweithrediad â Melin yr Eglwys Newydd ac Ysgol Melin Gruffydd, gyngerdd Nadolig yng nghapel y Methodistiaid. (19/12) Braf oedd cael croesawu rhieni a disgyblion yr ysgol atom. Gwelwyd doniau anhygoel gan y plant yn canu caneuon a charolau Nadolig hen a newydd. Diolch yn fawr iawn iddynt am ymuno gyda ni a rhannu eu doniau. Diolch yn arbennig i'r pennaeth Gwyndaf Jones, i Mrs. Llywelyn am arwain y côr ac i John Hayes am gydlynu. Gwnaed casgliad er budd Cronfa Achub y Plant Gaza. Diolch i bawb fu'n brysur yn paratoi lluniaeth wedyn yn y neuadd.

**Llyfrynnau**




Ychydig cyn y Nadolig fe gyflwynodd Ebeneser rodd i ddisgyblion hynaf Ysgol Melin Gruffydd sef llyfryn Nadolig Cymdeithas y Beibl.

**Gwerthfawrogi Enfys**



Ers dwy flynedd ar hugain y mae Enfys Harding wedi bod yn cynrychioli Ebeneser gyda gwaith Y Tabernacl, Caerdydd, yn rhoi te a lloches i'r digartref ar bnawn Sul. Yn y cyfnod hwnnw y mae wedi bod yn cynrychioli ein heglwys ar y pwyllgorau a hefyd yn trefnu'r rota lle y mae aelodau'n gwirfoddoli i helpu. Nid yw hwnnw wedi bod yn waith rhwydd pob tro ac y mae wedi golygu fod Enfys wedi gorfod llenwi'r bwlch ar lawer i achlysur. Y mae ganddi gonsyrn a gofal mawr dros y rhai hynny sy'n byw ar strydoedd ein prifddinas a thros dymor y Nadolig y mae hi ac Elin, ei merch, yn mynd a phecynnau bwyd ac anrheg iddynt. Hoffem, ar ran ein holl aelodau, ddiolch i Enfys am ei holl waith. Ar fore Sul 10fed Rhagfyr cyflwynwyd tusw o flodau iddi gan Alun Tudur fel arwydd o'n gwerthfawrogiad. Diolch i Gwenda Lewis am drefnu'r blodau.

**Croeso yn ôl**

Braf oedd croesawu Alun yn ôl yn dilyn y cyfnod Sabothol ar y Sul cyntaf o fis Rhagfyr. Gobeithiwn ei fod wedi cael cyfnod buddiol.

**Cleifion**

Cofiwn am ein haelodau sydd yn derbyn triniaethau ar hyn o bryd sef Annick Moseley a Helen Hilling.

Cofiwn hefyd am ein cyd aelodau sydd mewn cartrefi gofal neu yn gaeth i'w cartrefi sef Rosaline Bowen, Delor Wedlake, Rhiannon Jones a Mair Evans.

**Colled**

Trist oedd clywed am farwolaeth Eira Jones, aelod annwyl a ffyddl-on, ar Ragfyr 18fed yn 91 mlwydd oed. Bu gwasanaeth o ddathlu ei bywyd ar 26ain o Ionawr yng Nghapel Briwnant, Amlosgfa Thornhill.

Collodd Ebeneser un arall o'n haelodau ffyddlonaf oedd yn annwyl iawn i ni fel teulu Ebeneser sef Melora Parry, yn 95 mlwydd oed, ar 31 Mawrth. Pob cydymdeimlad ag Alun, ei mab, a Non ei nith, a'i holl deulu a ffrindiau. Coffa da amdani.

**Rygbi Caerdydd**

Yn ystod mis Rhagfyr a Ionawr bu criw o Ebeneser yn gwylio tîm rygbi Caerdydd yn chwarae yn erbyn Caerfaddon a Harlequins. Er bod Caerdydd wedi colli roedd y ddwy gêm yn gyffrous gyda digon o geisiau. Mae arwyddion cadarnhaol ar gyfer y dyfodol. Diolch i John Hayes am drefnu.(Llun ar y dudalen gefn)

**Casglwyr Sbwriel Ebeneser (CSE)**

Os ydych am:
- Reswm i godi ar fore Sadwrn.
- Mwynhau awyr iach a cherdded.
- Profi ymdeimlad o berthyn i dîm.
- Cyfrannu at gadw pentre'r Eglwysnewydd yn lân.
- Helpu codi proffil yr eglwys yn y pentref.
- Cymdeithasu gyda chyd-aelodau a ffrindiau.




**Wel, beth am ymuno â CSE?** Mae CSE yn cwrdd unwaith y mis am 10:00 ar fore Sadwrn.

Mae'r codi sbwriel yn para rhyw 45 munud ac yna bydd cyfle i gymdeithasu dros baned neu ddisgled mewn caffi cyfagos. Os oes diddordeb 'da chi ymuno â'r tîm a grŵp WhatsApp CSE, cysylltwch â John Hayes (john_hayes1@hotmail.com). Mae croeso i bawb. Bydd CSE yn casglu nesaf: 24.02; 30.03; 04.05; 08.06 a 13.07.




Mae gweddïo yn rhywbeth eithriadol o bwysig yn y ffydd Gristnogol. Hanfodol. Mae pob Cristion i weddïo yn gyson ond, oherwydd nad oes gennym batrymau gweddi haearnaidd, y mae perygl i ni fynd yn gwbl lac ac esgeulus mewn gweddi. Mae'r Mwslemiaid yn gweddïo yn ddeddfol 5 gwaith y dydd ar amserau penodol. Dyma'r enwau ar eu gweddïau dyddiol, Fajr (gwawr), Dhuhr (hanner dydd) Asr (pnawn) Maghrib (machlud) Isha (nos). Ond nid oes gennym ni fel Cristnogion amserau penodedig i weddïo. Felly mae'n bwysig ein bod fel Cristnogion yn meithrin disgyblaeth a phatrymau.

## Beth yw gweddi?

Yn syml, gweddi yw siarad gyda Duw. Cynnal sgwrs gydag ef. Mae Duw wedi ein creu i fyw mewn perthynas gydag ef. Yn Genesis cawn y darlun fod Duw yn creu popeth ac yn rhoi pobl i fod yn gyfrifol dros y cwbl mewn cydweithrediad ag ef. Mae Adda ac Efa gyda Duw yn edrych ar ôl y cread ac y amlwg mae perthynas gariadus rhyngddynt. Dyma yw ein cyflwr naturiol. Y crëwr a'r creaduriaid yn cyfathrebu mewn perthynas o gariad a diolchgarwch. Beth oedd testun y sgwrs? Ni allwn ond dychmygu. Ond yn y berthynas gyda Duw mae cyflawnder a hapusrwydd. Fel hyn mae pethau i fod. Yma, gyda Duw, mae paradwys, tangnefedd, dedwyddwch a chyflawnder.

Ond yna mae'r chwalfa yn dod trwy anufudd-dod. Dywed pobl nad ydynt am gadw'n ffyddlon i'w crëwr ac nid ydynt yn credu bod y berthynas gyda Duw yn ddigon i'w bodloni. A'r hyn sy'n digwydd yw bod y berthynas rhwng pobl a Duw a'r cyfeillgarwch yn cael ei chwalu a'r bendithion yn cael eu llygru. Aethant i gredu bod man gwyn man draw, heb Dduw. Onid dyna yw ein hanes bob amser.

Yr hyn mae Duw yn ei wneud yn Iesu yw adfer y berthynas. Dod â ni yn ôl, trwy'r hyn wnaeth Iesu, i berthynas ag ef. Mae Cristnogaeth yn eithriadol o syml ac **mae gweddi yn arwydd fod ein perthynas gyda Duw wedi ei hadfer trwy Iesu.**

## Effaith gweddi

**Dyma rai pwyntiau am weddi:**

1. **Wrth weddïo rydym yn cydnabod bodolaeth a phresenoldeb Duw.**

Nid ydym yn gweddïo ar ddim nad ydym yn credu sy'n bodoli nac yn gwrando arnom. Felly, mae gweddi o bob math yn fynegiant o'n haddoliad o Dduw.

Mae Ef yn haeddu ein canmoliaeth, ein hamser a'n cariad.

**2. Wrth weddïo rydym hefyd yn ildio ein hunain iddo Ef** a'i gydnabod yn Arglwydd. Deuwn yn ymwybodol o fawredd a phresenoldeb yr Arglwydd a rhoddwn ein bywydau yn ei ddwylo Ef. Cydnabyddwn mai ei eiddo Ef ydym. Ti sydd piau ni, dy eiddo di ydym. E.e., Salm 100 , adnod 3:

> Cyffeswch mai'r ARGLWYDD sydd Dduw;
> fe ydy'r un a'n gwnaeth ni,
> a ni ydy ei bobl e –
> y defaid mae'n gofalu amdanyn nhw.

Ac yn hyn mae teimlad o ddiogewlch a sicrwydd. Duw bia fi, nid y byd, nid y tywyllwch, nid yr un drwg, ond Duw, mae o yn fy ngharu i, mae wedi fy mhrynu yn Iesu ac mae popeth yn iawn beth bynnag sydd yn digwydd.

**3. Wrth weddïo rydym yn cael ein moldio i ewyllys Duw.**

Yn aml deuwn â'n rhestr weddi gerbron Duw. Gwna hyn llall ac arall Arglwydd ac fe fydd fy mywyd i yn well. Ond nid pwrpas gweddi yw ein bod ni yn rhoi cyngor i'r Duw perffaith a hollalluog beth ddylai ei wneud, ond yn hytrach ein bod ni yn caniatáu i Dduw ein newid fel ein bod yn plygu i'w ewyllys.

Mae gan Elfed Lewis frawddeg syml ond arwyddocaol iawn yn ei emyn ar weddi. CFf 717). Fe ddywed fod treulio munud yng nghwmni Duw yn newid gwerth y byd.

> I dawel lwybrau gweddi,
> O Arglwydd, arwain fi,
> rhag imi gael fy nhwyllo
> gan ddim daearol fri:
> mae munud yn dy gwmni
> yn newid gwerth y byd
> yn agos iawn i'th feddwl
> O cadw fi o hyd.

***(parhad ar dudalen 9)***




Yn oedfa'r bore yn ddiweddar rydym wedi canu cyfieithiad Cynan Llwyd o emyn Robert Robinson (1735-1790), *Come thou fount of every blessing* – "Tyred ffynnon pob daioni". Mae'r ail bennill yn agor gyda'r geiriau "Yma codaf f'Ebeneser", sydd yn cyfeirio yn ôl at hanes yn llyfr cyntaf Samuel - 1 Samuel 7:2-14.

Felly beth mae'n ei olygu i 'godi fy Ebeneser'? Mae'r hanes yn sôn am ddiwedd cyfnod pan oedd pobl Israel wedi bod yn anffyddlon i Dduw ac yn ddi-hid yn eu haddoliad. Mae'r proffwyd Samuel yn eu herio i gael gwared â'u duwiau paganaidd a rhoi eu hunain yn llwyr i wasanaethu'r ARGLWYDD. Mae o'n galw pawb at ei gilydd i le o'r enw Mitspa. Yno maen nhw'n addoli Duw ac yn cyffesu eu bod wedi pechu yn ei erbyn. Ond mae eu gelynion, y Philistiaid, yn clywed bod pobl Israel wedi dod at ei gilydd yn Mitspa, ac yn penderfynu ymosod arnyn nhw. Roedd pobl Israel wedi dychryn am eu bywydau. Felly beth ddigwyddodd?

Mae'r bobl yn troi at Samuel ac yn gofyn iddo weddïo drostyn nhw, ac mae Samuel yn gwneud hynny ac yn mynd ati i aberthu oen yn offrwm i Dduw. A dyna pryd wnaeth Duw ateb ei weddi. Darllenwn yn adnod 10, "Roedd y Philistiaid ar fin ymosod ar Israel pan oedd Samuel yn cyflwyno'r offrwm. A'r foment honno

dyma'r ARGLWYDD yn anfon anferth o storm o fellt a tharanau, wnaeth yrru'r Philistiaid i banig llwyr, a dyma nhw'n ffoi o flaen byddin Israel." Yna dyma Samuel yn gosod carreg i fyny (rhywbeth tebyg i faen hir) i goffáu beth oedd wedi digwydd, ac yn ei henwi yn Ebeneser (sef 'Carreg Help'). "Mae'r ARGLWYDD wedi'n helpu ni hyd yma" meddai Samuel wrthyn nhw. Adlewyrchir yr adnod hwn yn arwyddair Eglwys Ebeneser Caerdydd: "Hyd yma y cynorthwyodd yr Arglwydd ni."

Mae'n ddechrau blwyddyn. Tybed ydy hi'n gyfle i ninnau godi ein Ebeneser ni? Cydnabod ein bod ninnau'n rhy aml yn rhoi lle i 'dduwiau' eraill yn ein bywydau, ac yn gallu bod yn anffyddlon ac yn ddi-hid yn ein haddoliad. Gadewch i ni ymroi o'r newydd i addoli Duw, cyffesu a throi ato gyda'r unig aberth sydd gynnon ni i'w gynnig iddo – sef yr Oen, yr Arglwydd Iesu Grist. Yng ngeiriau Salm 33:20 –

> "Mae'n gobaith ni yn yr ARGLWYDD!
> Fe sy'n ein helpu ni, ac yn darian i'n hamddiffyn ni."

---

*(Parhad o dudalen 7)*

Mae gweddi yn ein newid ni ac yn newid ein hagwedd at y gymdeithas a'r bobl sydd o'n cwmpas, gan ein bod yn treulio amser ym mhresenoldeb y cariad mwyaf. Ac yng ngwres y cariad fe gawn ein llenwi gan y cariad.

## Her

Pob dydd rhowch 5 – 10 munud i weddïo ar yr Arglwydd. Cymerwch Salm, adnod neu emyn i feddwl amdano er mwy rhoi testun gweddi i chi. Os na allwch feddwl am ragor i'w ddweud, eisteddwch yn dawel gan fod yn ymwybodol o bresenoldeb Duw.

## **Teyrnged** *Glesni Whettleton 1943–2023*

Dyma grynodeb o'r deyrnged dalodd y gweinidog i Glesni yn ei hangladd yn Amlosgfa'r Ddraenen Wen ar 18/12/23.

### Blynyddoedd cynnar

Roedd yn wraig arbennig, yn llawn egni a bwrlwm, yn ddeallus a sylweddol, yn ffraeth a charedig, gyda stori i'w hadrodd bob amser. Hannai o Benycae, Cwmtawe. Roedd yno gymuned glos Gymraeg lle roedd pawb yn adnabod ei gilydd ac yr oedd eglwys Tyncoed yn bwysig iawn i fywyd y teulu. Merch ydoedd i Richard ac Ursula Hughes. Aeth i Ysgol Gynradd Penycae ac yna Ysgol Ramadeg Maesydderwen a phan yn y 6ed dosbarth cyfarfyddodd â Brian. .Aeth Glesni i Goleg y Drindod, Caerfyrddin lle yr hyfforddodd fel athrawes, gan arbenigo yn y Gymraeg. Un o'i phrif ddarlithwyr oedd y diweddar Norah Isaac, ac roedd yn aml yn hel atgofion melys am y cyfnod hwnnw. Priododd Glesni and Brian yng nghapel Tynycoed ym mis Awst 1965, ac wedyn ymgartrefu yng Nghaerdydd.

### Gyrfa

Bu'n dysgu yn Ysgol Gynradd Rhydypennau; Ysgol Gymraeg Penarth; Pennaeth Ysgol Gymraeg Iolo Morgannwg, Y Bontfaen ac yna Pennaeth Ysgol Y Wern, Caerdydd lle y bu hyd ei hymddeoliad. Yno gweithiodd yn eithriadol o galed i roi sylfeini cadarn i'r ysgol sy'n parhau i ffynnu. Roedd yr iaith Gymraeg yn eithriadol o bwysig iddi a gweithiodd yn ddygn i hyrwyddo twf addysg Gymraeg yma yn y brifddinas.

### Teulu

Ergyd drom iddi oedd marwolaeth Brian yn 2015. Er nad oedd ganddynt blant eu hunain bu Glesni a Brian rhan fawr o fywydau plant ei chyfnither Non, sef Dylan, Berian, Delyth a Cerith. Hefyd ym mywyd bechgyn Dylan a Mair, sef Owen a Gruffydd a mab Delyth a Chris, sef Dafydd, ac yn fwy diweddar yr wyrion, sef Elis, Megan a Mali. Roedd Glesi yn llawer mwy na modryb a bydd hi'n golled fawr i'r holl deulu.

## Diddordebau

Roedd ganddi nifer o ddiddordebau ar ôl ymddeol. Teithiodd y byd gyda Brian. Roedd yn aelod o Probus, Merched y Wawr, a'r Luncheon Club. Roedd hi'n mwynhau cwrdd â ffrindiau am goffi a sgwrs ac wrth gwrs …siopa…. roedd ei gwisg ac yn enwedig ei sodlau uchel yn enwog trwy Gymru.

## Ebeneser

Roeddwn i yn ei hadnabod fel aelod ffyddlon o eglwys Ebeneser. Hyfryd oedd cael ei phresenoldeb a phrofi o'i hanogaeth a'i gofal dros gyd-aelodau. Newyddion da Cristnogaeth yw fod Duw yn ein caru a'i fod wedi dangos hynny yn rhyfeddol trwy Iesu Grist:. Ei fywyd ei farwolaeth a'i atgyfodiad. Rhan fendigedig o'r newyddion hwn yw fod bywyd tragwyddol wedi marwolaeth i bob un sy'n creu ynddo.

---


## Ffynhonnau Byw



Cofiwch ein bod wedi mabwysiadu elusen ddewisedig yr Undeb, sef Apêl Cymorth Cristnogol Ffynhonnau Byw. Mae rhai cynlluniau eisoes ar y gweill i godi arian, a bydd mwy i'w adrodd yn fuan.

***(Awdur yr emyn ar y dudalrn flaen)***

"Glan Dyfi" oedd enw barddonol Thomas John Pritchard, a hynny am ei fod yn frodor o Eglwys-fach, yng ngogledd Ceredigion. Dechreuodd bregethu yn ifanc a thyfodd i fod yn bregethwr coeth. Bu'n weinidog gyda'r Wesleaid, gan ofalu am eglwysi yn ne Cymru. Cyfrannai'n gyson i lenyddiaeth ei enwad; yr oedd yn un o olygyddion Llyfr Emynau y Methodistiaid Wesleaidd (1900), a bu'n Llywydd Cymanfa'r Wesleaid yng Nghymru. Bu farw yng Nghaerdydd yn 1918.




Dydy dewis dilyn Iesu ddim yn dy osod ar lwybr newydd yn unig; mae'n golygu nad yw Duw yn dal dy orffennol yn dy erbyn. Yn syml, mae'n maddau i ti.

Mae cael maddeuant yn brofiad sy'n rhoi cymaint o ryddhad. Mae byw heb gywilydd, nac edifeirwch, yn golygu y gallwn fyw yn ysgafn a chyda rhwyddineb.

A'r rhan orau: does dim rhaid i ti ennill maddeuant Duw; Mae'n ei roi yn rhad ac am ddim. Er hynny mae dau ofyniad i gael maddeuant. Mae angen i ti gyfaddef yn ostyngedig bod angen maddeuant arnat ti. Mae angen i ti faddau i eraill.

Allwn ni ddim bod yn dderbynwyr gras anhaeddiannol ac yna dal eraill i gyfrif. Mae cael maddeuant yn golygu dy fod nawr yn rhydd i faddau. Does dim rhaid i ti gadw sgôr mwyach. Mae Duw wedi clirio dy gerdyn sgorio o gamwedd, ac mae'n dy gyfarwyddo i wneud yr un peth.
Po gynta y byddi'n dewis maddeuant, po gynhara y byddi'n dod o hyd i ryddid. Bydd fel Iesu: Maddeuodd i ti, nawr rwyt i faddau i eraill.

**Awdur gwreiddiol: SoCal Youth Ministries ar gyfer YouVersion.**
**Cyfieithiad Cymraeg: Tudur Jones.**

Os gwnewch chi faddau i bobl pan maen nhw wedi gwneud cam â chi, bydd eich Tad nefol yn maddau i chi hefyd.

**Mathew 6:14 beibl.net.**

Oherwydd os maddeuwch i eraill eu camweddau, bydd eich Tad nefol hefyd yn maddau i chwi.

**Mathew 6:14 BCND**

Hoffech chi gyfrannu at Y Llusern? Beth am eich hoff emyn neu adnod, a pham; neu fyfyrdod. Os felly, rhowch bin ar bapur neu anfon ebost at ebenesercaerdydd1@gmail.com

Cyfarfodydd Angor

CANOLFAN REACH

GRANGETOWN

**Edrych nôl ar 2023**

Rydyn ni mor ddiolchgar i Ebeneser ac i Undeb yr Annibynwyr am eu haelioni a'u cefnogaeth i'r gwaith yn Grangetown. Mae gynnon ni lawer o fendithion i ddiolch i Dduw amdanyn nhw hefyd.

- Cafwyd noson garolau hyfryd yn Y Pafiliwn gyda nifer o drigolion Grangetown ac aelodau Ebeneser**.**
- Bu gwasanaeth Nadolig i'r teulu cyfan a sawl wyneb newydd yn ymuno**.**
- Noson gymdeithasol yn nhŷ cwpl ifanc o Grangetown ar noson tân gwyllt gyda nifer yn ymuno.
- Mae'r adeilad dynni ynddo bellach yn teimlo yn rhy fach ar gyfer y gwaith plant a'r cwrdd.

**Rydyn ni'n edrych ymlaen at 2024…**

**...**ac yn eiddgar i barhau gyda'r gwaith a pharhau i wasanaethu yn yr ardal. Rhai syniadau a ddigwyddiadau sydd eisoes ar y gweill yw:

- Y Bwrdd - cyfle pob 3ydd Sul y mis i ymgasglu, cydfwyta, cymdeithasu, gwahodd ffrindiau a mwynhau cwmni ein gilydd. Croeso i bawb.

- Diwrnod gweddi. Fel Eglwys hoffwn geisio  ewyllys Duw am y flwyddyn a'i chyflwyno iddo.

- Edrych am leoliadau newydd posib i gyfarfod.

## Gwasanaethau ar CD

Os hoffech gael copi o'r gwasanaethau ar y Sul ar CD, cysylltwch gyda Tudur Jones.

## Bwydydd sychion a thun

Mae elusen Enfys Gobaith yn ddiolchgar iawn o'r bwyd yr ydych wedi eu cyfrannu yn ystod y misoedd diwethaf. Maent yn cael eu rhoi yn gyson i'r anghenus yma yng Nghaerdydd. Diolch i chi am eich haelioni. Byddwn yn casglu bwydydd sychion yn ystod yr wythnos gyntaf lawn o bob mis. Os hoffech gyfrannu, tuniau llysiau, ffrwythau, cig, pysgod, cawl, ffa ayyb; pasta, reis, te, coffi, llaeth UHT byddem yn dra diolchgar. Cysylltwch gyda Tudur Jones er mwyn trefnu casglu.



## Y Ganolfan Glyd

Byddai't Tabernacl yn y Ais yn gwerthfawrogi cyftaniuadau o siwmperi, sannau a chotiau. Cysylltwch â John Hayes (john_hayes1@hotmail.com).

**E-bost:** Os hoffech dderbyn ebost wythnosol Ebeneser anfonwch neges at: ebenesercaerdydd1@gmail.com

## Recordiadau

Gellir gwrando ar holl bregethau Ebeneser ar wefan Soundcloud. Maent yn cael eu gosod yno'n wythnosol. Diolch i Tudur. Gellir gwylio ffrwd byw o oedfa bore Ebeneser ar ein tudalen Facebook ac yna ar Youtube. Diolch yn fawr iawn i Seren Jones am ei help.

## Tîm Digidol

Rydym yn chwilio am aelodau i helpu gydag ochr ddigidol bywyd Ebeneser. Bellach yn wythnosol y mae elfennau digidol sydd yn rhan bwysig o'n gwaith a'n tystiolaeth. e.e., PowerPoints, ffrwd byw, podlediad, Youtube, Trydar ('X'), Gweplyfr (Facebook), cryno ddisgiau o'r oedfaon a'r wefan.

## Gosod a Gofal

Hoffem ddiolch i'r holl aelodau sydd yn cynorthwyo gyda gosod popeth yn ei le ar fore Sul. Diolch i Eynon am baratoi'r rota ac i Tudur, John a Petra am eu holl help

---

## CYFRANIADAU

Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch sydd wedi anfon cyfraniadau at waith Eglwys Ebeneser yn ystod 2023. Gwerthfawrogwn yn fawr iawn eich haelioni tuag at waith hollbwysig yr Arglwydd Iesu trwy gyfrwng Ebeneser. Mae nifer o aelodau bellach yn cyfrannu'n fisol trwy archeb banc. Os nad ydych eto wedi cael cyfle i gyfrannu hoffem eich gwahodd i barhau i gyfrannu at waith yr eglwys, yn ystod 2024, un ai: trwy siec yn daladwy i Eglwys Ebeneser Caerdydd, at y Trysorydd, Eilir Jones, 9 Clos y Bryn, Caerdydd. CF14 6TR. Neu, taliad yn uniongyrchol i gyfrif banc HSBC yr Eglwys – cod sortio 40-16-35, rhif y cyfrif 81042882, gan nodi eich enw fel cyfeirnod.



# Calendr

Cynhelir oedfa'r bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD.

Cynhelir oedfa'r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA.

Cynhelir Angor ar yr ail ar pedwerydd Sul o bob mis yn Reach Centre, Avondale Street, Grangetown.

Pob nos Lun am 7.30 y,h., cynhelir y cwrdd gweddi yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.

## Sulau Chwefror a Mawrth

**4 Chwefror** - 10.00 yb yn CEN a 3.00yp. Yr Eglwys Feth-odistaidd. Cymun yn y pnawn. Oedfaon dan ofal Alun Tudur.

**11 Chwefror** - 10.00 yb yn CEN a 3.00yp. Yr Eglwys Feth-odistaidd. Oedfaon dan ofal Alun Tudur.
**18 Chwefror** - 10.00 yb yn CEN a 3.00yp. Yr Eglwys Feth-odistaidd. Oe.dfaon dan ofal Alun. Cymun yn y bore.
**25 Chwefror** - 10.00 yb yn CEN a 3.00yp. Yr Eglwys Feth-odistaidd. Oedfaon dan ofal Robin Samuel.

*************************************************************************

**3 Mawrth** - 10.00 yb yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd. Cymun yn y pnawn. Oedfaon dan ofal Alun Tudur.
**10 Mawrth** - 10.00 yb yn CEN a 3.00yp. Yr Eglwys Feth-odistaidd. Oedfaon dan ofal Alun Tudur.
**17 Mawrth** - 10.00 yb Llanllanast yn CEN a Sul y Cyfundeb yng Nghanolfan yr Urdd, Bae Caerdydd.
3.00yp Yr Eglwys Fethodistaidd. Oedfa dan ofal Alun.
**24 Mawrth** - 10.00 yb yn CEN a 3.00yp Yr Eglwys Feth-odistaidd. Oedfaon dan ofal Aled Davies (Cyrddau Hanner Blynyddol).


THE PETER THOM